

# Atodiad B: Aseiad risg cyffredinol

## Cyflwyniad i'r aseiad risg cyffredinol: Tywydd eithafol o arw gan gynnwys eira a rhew

Pwrpas yr aseiad risg cyffredinol yw rhoi sylfaen o wybodaeth i benaethiaid a rheolwyr i'w gwneud yn bosibl iddynt lunio eu hasesiad risg eu hunain. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol wrth gynnal aseidiadau risg deinamig yn ystod tywydd eithafol o arw.

Dim ond ymdrin â'r gweithgareddau a/neu beryglon bras sy'n berthnasol i dywydd eithafol o arw y mae'r aseiad risg cyffredinol, gan gynnwys eira, rhew a gwynt, ac felly mae'n bosibl na chafodd ffactorau sy'n benodol i ysgol neu leoliad unigol eu hystyried.

Dylid nodi, oherwydd ei gyffredinolrwydd, nad yw pennawd 'rheolaethau ar waith' yn cael ei gynnwys gan y byddai'r rhain yn amrywio o ysgol i ysgol neu leoliad i leoliad. Fodd bynnag, darparwyd 'Rheolaethau gofynnol' a fyddai'n gweddu i'r gweithgaredd a'r perygl cyffredinol yn yr aseiad cyffredinol. Yn ogystal â 'Rheolaethau gofynnol', darparwyd 'Ystyriaethau pellach' fel cyngor, ond maent yn gyfyngedig ac yn berthnasol i'r gweithgareddau a'r peryglon yn yr aseiad risg cyffredinol hwn yn unig. Mae penaethiaid neu reolwyr hefyd yn gallu cael cyngor gan yr awdurdod lleol neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Oherwydd ei gyffredinolrwydd nid oes gwerthoedd gwerthuso yn yr aseiad risg cyffredinol o lefelau difrifoldeb anafiadau a allent ddigwydd neu'r tebygolrwydd y bydd damwain yn digwydd.

Dylai'r aseiad risg cyffredinol hwn a'r wybodaeth a roddir yn y brif ddogfen ganllawiau wneud y pennaeth neu'r rheolwr yn ymwybodol o'r risgiau dan sylw, a rhywfaint o bosibiliadau wrth sefydlu i ba raddau y gellir eu rheoli. Dylai'r lefel hon o ymwybyddiaeth hefyd gyfrannu at y pennaeth neu'r rheolwr yn creu ei aseiad risg cyffredinol ysgrifenedig ei hun ar sail ffeithiau penodol ynghylch safle'r ysgol neu'r lleoliad, ei faint, ac ymarferoldeb rheoli'r sefyllfa.

## Asesiad risg cyffredinol – Tywydd eithafol o arw gan gynnwys eira a rhew

Gweithgarwch	Perygl	Pwy allai fod mewn perygl	Rheolaethau gofynnol	Ystyriaethau pellach
Cyrraedd yr ysgol neu'r lleoliad	Peryglon teithio yn ystod tywydd eithafol o arw.	Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu gynnal a chadw, contractwyr, plant a phobl ifanc.	Pennaeth neu reolwr i fonitro'r amodau o ran y tywydd <a href="http://www.metoffice.gov">www.metoffice.gov</a>	Lleoliad gwledig ysgol neu leoliad a/neu'r mwyafrif o'r rhai sy'n gysylltiedig â'r ysgol neu'r lleoliad.
Cyrraedd yr ysgol neu'r lleoliad	Peryglon teithio yn ystod tywydd eithafol o arw.	Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu staff cynnal a chadw, contractwyr, plant a phobl ifanc.	Ni ddylid ystyried unrhyw deithio os rhoddir rhybudd o dywydd eithafol o arw ac y cynghorir teithio hanfodol yn unig.	Mae'n bosibl na fydd rhybuddion cenedlaethol yn gywir ar lefel leol, felly mae'n bosibl y gall darllediadau lleol fod yn ddefnyddiol hefyd.
Taith sy'n defnyddio ardaloedd lle mae'n hysbys y disgwylir i'r ffyrdd gau neu sy'n cynnwys ffyrdd serth.	Peryglon teithio yn ystod tywydd eithafol o arw.	Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu staff cynnal a chadw, contractwyr, plant a phobl ifanc.	Cynllunio ymlaen llaw gan staff o ran llwybrau ar y 'ffordd fawr', neu ar y trênn, i ac o'r ysgol neu'r lleoliad.	Efallai y byddai'n rhesymol disgwyl i bobl gerdded, pan na all ceir na cherbydau eraill fynd yr holl ffordd i mewn i'r ysgol neu'r lleoliad.  Penaethiaid neu reolwyr i ystyried beth sy'n rhesymol ar sail yr ardal a'r staff.

Gweithgarwch	Perygl	Pwy allai fod mewn perygl	Rheolaethau gofynnol	Ystyriaethau pellach
Prif fynedfa i dir ysgol neu leoliad.	Dim modd mynd ar dir yr ysgol neu'r lleoliad.	Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu staff cynnal a chadw, contractwyr, plant a phobl ifanc.	Parcio ceir y tu allan i dir yr ysgol neu'r lleoliad hyd nes bod y ffordd i'r tir wedi'i chlirio. Os nad oes modd cyrraedd ar droed, asesu dulliau rhesymol eraill i fynd i mewn i'r ysgol neu'r lleoliad.	Arwyddion wrth y brif fynedfa, neu fynedfeydd eraill os yw rhew neu rwystr arall yn atal mynediad.
Prif fynedfa i dir ysgol neu leoliad.	Perygl mawr o lithro yn y fynedfa.	Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu staff cynnal a chadw, contractwyr, plant a phobl ifanc.	Clirio'r perygl o lithro, os na chanfyddir ffordd arall o gael mynediad. Gellir rhoi blaenoriaeth i lwybrau eraill a chau'r brif fynedfa. Mae'n bosibl y bydd taenu halen neu raean yn ddigonol, ond mae'n bosibl y bydd angen llafur corfforol i glirio rhew a/neu eira os mai dyma'r brif a'r unig fynedfa.	Os defnyddir y fynedfa gan gerbydau a cherddwyr, mae'n bosibl y bydd taenu halen neu raean yn flaenoriaeth. Gellir atal ceir rhag cael mynediad er mwyn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr ac osgoi risg.
Cael gafael ar aelodau priodol o staff i agor ysgol neu leoliad.	Goruchwyliaeth annigonol.	Staff, plant a phobl ifanc.	Cyfathrebu â staff i gael gwybod a fyddant yn bresennol pan fo'r tywydd yn eithafol o arw.	Dylai'r pwyslais fod ar sut i weithredu'n ddiogel.  Dylai ysgolion flaenoriaethu hyn dros a oes modd dilyn cwricwlwm llawn ac arferol.

Gweithgarwch	Perygl	Pwy allai fod mewn perygl	Rheolaethau gofynnol	Ystyriaethau pellach
			<p>Cyfathrebu â chwmni bysiau'r ysgol neu'r lleoliad, yr awdurdod lleol a gweithredwyr gwasanaethau bws lleol i sefydlu sut y mae dysgwyr am gyrraedd a gadael ysgol neu leoliad.</p> <p>Y pennaeth neu reolwr y lleoliad i sefydlu beth fyddai'n lefel briodol o ran goruchwyliaeth briodol drwy asesu deinamig ar ddiwrnod y tywydd eithafol o arw.</p>	<p>Mae plant sy'n mynd i ofal plant a dysgwyr oedran cynradd yn debygol o fod y byw'n lleol, gyda disgwyliad uwch y byddant yn bresennol..</p> <p>Mae gan ysgolion uwchradd neu rai yng nghefn gwlad ddysgwyr o ardaloedd mwy eang ac yn fwy dibynnol, o bosibl, ar fysiau ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus, felly, o bosibl, bydd niferoedd yn is a gwaith goruchwylio'n haws.</p>
Mynediad i adeiladau'r ysgol neu'r lleoliad.	Llithro, baglu neu gwympo.	Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu staff cynnal a chadw, contractwyr, rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc.	<p>Gellid taenu halen neu raean pan ragwelir rhew neu eira.</p> <p>Taenu halen neu raean ar lwybrau cerdded a chlirio eira lle bo'n rhesymol.</p> <p>Lle bynnag y bo modd, ni ddylid defnyddio llethrau, grisiau, rampiau ac ati. Fodd bynnag, os ydynt yn cael triniaeth addas, ni ddylai'r</p>	<p>Mae rhagolygon cyffredinol o dywydd eithafol o arw, er y gall rhew ac eira fod yn waeth neu'n llai, gan ddibynnu ar ddaearyddiaeth yr ardal leol.</p> <p>Os yw cyflenwad ysgol o halen neu raean yn isel, yna gellid trin y prif lwybrau'n unig. Gellid gosod arwyddion ar lwybrau eraill i'w hatal rhag cael eu defnyddio.</p>

Gweithgarwch	Perygl	Pwy allai fod mewn perygl	Rheolaethau gofynnol	Ystyriaethau pellach
			<p>Ilwybrau cerdded hyn fod yn wahanol i unrhyw lwybr sydd wedi'i drin. Y pennaeth neu reolwr y lleoliad i benderfynu pa lwybrau sydd i gael eu defnyddio a'u trin yn gyntaf.</p>	<p>Mae'n bosibl fod trin ardaloedd mewnol, fel libartiau, iardiau neu lwybrau cerdded rhwng adeiladau â llai o flaenoriaeth.</p>
<p>Cyfleusterau gwresogi a lles.</p>	<p>Oerfel (islaw'r lefelau a ganiateir ar gyfer gwaith). Dim dŵr i'w yfed nac ar gyfer cyfleusterau hylendid.</p>	<p>Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu staff cynnal a chadw, contractwyr, rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc.</p>	<p>Parhau i wresogi ar lefel isel gydol cyfnodau o dywydd oer sy'n hysbys i osgoi peipiau'n rhewi.</p> <p>Cynnal a chadw systemau dŵr, er enghraifft, trin mannau sy'n gollwng neu'n diferu mewn da bryd.</p> <p>Gwrio rheolaidd gan staff cynnal a chadw i sicrhau bod systemau dŵr a gwresogi'n gweithio'n dda.</p>	<p>Os na ellir cynhesu'r adeilad na darparu dŵr i'w yfed nac ar gyfer hylendid yn ystod oriau'r ysgol neu'r lleoliad, yna mae'n bosibl y bydd rhaid i'r ysgol neu'r lleoliad gau.</p>

Gweithgarwch	Perygl	Pwy allai fod mewn perygl	Rheolaethau gofynnol	Ystyriaethau pellach
<p>Cadw'r ysgol neu'r lleoliad ar agor.</p>	<p>Dysgwyr yn llithro, baglu neu gwmpo yn ystod amseroedd egwyl.</p>	<p>Plant a phobl ifanc.</p>	<p>Peidio â defnyddio meysydd chwarae/buarth yr ysgol neu'r lleoliad na mannau eraill y tu allan pan na ellir clirio rhew ac eira neu eu lleihau.</p> <p>Os oes mannau allanol sy'n glir, neu'n glir yn bennaf o rew ac eira, gellir cael amser egwyl neu chwarae o dan oruchwyliaeth. Dylai lefel y goruchwylio fod yn uwch a dylid gwahardd rhedeg. Dylid osgoi a rheoli unrhyw ardaloedd sy'n parhau i fod dan rew neu eira.</p> <p>Dylid hysbysu plant a phobl ifanc o'r cyfyngiadau.</p>	<p>Gellid cyfyngu mynediad at rai ardaloedd a'u rheoli trwy daenu halen neu raean cyn caniatáu iddynt gael eu defnyddio.</p> <p>Gall rhew neu eira sydd wedi dadmer ail-rewi felly mae angen talu sylw parhaus iddo.</p> <p>Os yw'r lle ar gael yn gyfyng, gellid amrywio amseroedd egwyl rhwng dysgwyr. Fodd bynnag, byddai angen goruchwyliaeth addas ar gyfer yr opsiwn hwn.</p>

Gweithgarwch	Perygl	Pwy allai fod mewn perygl	Rheolaethau gofynnol	Ystyriaethau pellach
Cadw'r ysgol neu'r lleoliad ar agor.	Rhagor o rew ac eira neu gawod eira blaenorol yn rhewi.	Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu staff cynnal a chadw, contractwyr, plant a phobl ifanc.	<p>Pennaeth neu reolwr lleoliad i fonitro amodau'r tywydd drwy'r Swyddfa Dywydd a'r cyfryngau lleol.</p> <p>Gellir cael gwybodaeth gan yr awdurdod lleol hefyd.</p>	<p>Gellid trefnu cyflenwad ychwanegol o halen neu raean.</p> <p>Os yw'r lle ar gael yn gyfyng, gellid amrywio amseroedd egwyl rhwng dysgwyr. Fodd bynnag, byddai angen goruchwyliaeth addas ar gyfer yr opsiwn hwn.</p> <p>Gall rhew neu eira sydd wedi dadmer ail-rewi felly mae angen talu sylw parhaus iddo.</p> <p>Bydd angen i staff cynnal a chadw gwirio'n rheolaidd i sicrhau bod systemau dŵr a gwresogi yn gweithio'n dda.</p>

Gweithgarwch	Perygl	Pwy sydd mewn perygl	Rheolaethau gofynnol	Ystyriaethau pellach
<p>Cadw mynedfeydd, llwybrau, meysydd parcio a mannau awyr agored yn ddiogel yn ystod cyfnodau o rew ac eira.</p>	<p>Rhagor o rew ac eira neu gawod eira blaenorol yn rhewi.</p>	<p>Penaethiaid, rheolwyr, athrawon, ymarferwyr, staff gofalu a/neu staff cynnal a chadw, contractwyr, plant a phobl ifanc.</p>	<p>Gellid defnyddio rhagor o halen a/neu raean ar lwybrau a mannau eraill i leihau'r peryglon ar gyfer drannoeth.</p> <p>Gellid ysgubo dŵr sy'n sefyll i'r draeniau i'w atal rhag rhewi dros nos.</p>	<p>Gellid trefnu cyflenwad ychwanegol o halen a/neu raean a gwneud gwaith cynnal a chadw ar systemau dŵr a gwresogi i sicrhau eu bod yn parhau i weithio'n effeithiol.</p>



## Asesiad risg cyffredinol – tywydd eithafol o boeth

Perygl	Ystyriaethau	Mesurau Iliniarol	Gweithgarwch cyfathrebu
Efallai na fydd plant mewn ysgol neu leoliad, neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu, wedi'u paratoi na'u diogelu'n ddigonol ar gyfer tywydd eithafol o boeth.	Dylid ystyried dyddiau chwaraeon a gweithgareddau cyfoethogi a gynlluniwyd ar gyfer y dyddiau a effeithir, a fyddent o bosibl yn golygu bod yn yr awyr agored.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llacio gofynion ysgolion ynghylch gwisg ysgol.</li> <li>• Gofyn i blant a phobl ifanc ddod i'r lleoliad yn gwisgo eli haul a hetiau.</li> <li>• Dylai poteli dŵr gael eu hail-lenwi'n aml.</li> <li>• Dylid cyfyngu'r amser a dreulir yn agored i'r haul.</li> </ul>	Bydd Llywodraeth Cymru yn ategu cyngor i'r cyhoedd ynghylch cadw'n ddiogel mewn ysgolion a lleoliadau yn ystod tywydd eithafol o boeth, drwy sianeli cyfathrebu perthnasol fel cylchlythyr Dysg, Hwb, CCAC ac AGC.
Bydd ystafelloedd ac ardaloedd o fewn ysgolion a lleoliadau yn gorboethi.	Bydd angen ystyried yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer awyru yn yr ystafelloedd a mannau o fewn yr ysgol neu'r lleoliad.	Dylid agor ffenestri a dulliau eraill o awyru yn gynnar yn y bore i adael i aer claeaf gylchredeg drwy'r adeilad.	Bydd Llywodraeth Cymru yn ategu cyngor i'r cyhoedd ynghylch cadw'n ddiogel mewn ysgolion a lleoliadau yn ystod tywydd eithafol o boeth, drwy sianeli cyfathrebu perthnasol fel cylchlythyr Dysg, Hwb, CCAC ac AGC.
Bydd ystafelloedd ac ardaloedd yn gorboethi o ganlyniad i beidio â diffodd goleuadau ac offer trydanol arall o gwmpas yr ysgol neu'r lleoliad.	Bydd angen ystyried y defnydd o oleuadau ac offer trydanol o gwmpas yr ysgol neu'r lleoliad.	Dylid diffodd goleuadau ac offer trydanol fel cyfrifiaduron yn hytrach na'u gadael mewn modd segur pan nad ydynt yn cael eu defnyddio i atal cynhyrchu unrhyw wres ychwanegol.	Bydd Llywodraeth Cymru yn ategu cyngor i'r cyhoedd ynghylch cadw'n ddiogel mewn ysgolion a lleoliadau yn ystod tywydd eithafol o boeth, drwy sianeli cyfathrebu perthnasol fel cylchlythyr Dysg, Hwb, CCAC ac AGC.